



Y Coleg

Merthyr Tudful

The College

Merthyr Tydfil

Welsh Language Standards Managers/Team Leader Pack

PECYN RHEOLWR / ARWEINYDD TÎM

Cyflwyniad

Nod y canllaw hwn yw eich helpu chi a'ch tîm i ddeall y gweithredu sydd angen i chi ei gyflawni i ddiwallu Safonau'r Gymraeg yn ein sefydliad. Defnyddiwch y canllaw yn ystod cyfarfodydd tîm i ysgogi trafodaeth am y newidiadau gofynnol yn eich tîm ac i fynd i'r afael ag unrhyw bryderon a allai fod gan y staff.

Beth yw Safonau'r Gymraeg?

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn darparu statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru. Mae Safonau'r Gymraeg sy'n deillio o'r Mesur, yn gasgliad o ofynion gorfodol yn ôl y gyfraith â'r nod o wella gwasanaethau dwyieithog y gall ein myfyrwyr, y cyhoedd a staff ddisgwyl eu derbyn oddi wrth y Brifysgol. Mae'r Safonau'n gosod allan y glir yr hyn yw ein cyfrifoldebau o ran darparu gwasanaethau dwyieithog, sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'r Safonau'n gyfle pwysig i adolygu a gwella ein harferion gwaith safonol i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol. Caiff y safonau hyn eu rheoleiddio gan Gomisiynydd y Gymraeg gan ddod i rym ar **1 Ebrill 2018**.

Beth sydd angen i mi ei wneud fel Rheolwr / Arweinydd Tîm?

Mae gennym ni oll gyfrifoldeb i sicrhau ein bod yn darparu gwasanaethau **dwyieithog** o ansawdd uchel i bobl Cymru. Bydd y Safonau'n cymryd lle'r Cynllun, ac yn gosod disgwyliadau clir a chysondeb ar draws y sector mewn perthynas â'n gwasanaethau dwyieithog a'r modd yr ydym yn defnyddio'r Gymraeg yn fewnol.

Bydd angen i ni i gyd ystyried y modd yr ydym yn ateb y ffôn, cysylltu â chwsmeriaid, myfyrwyr, cydweithwyr a'r cyhoedd, arwain cyfarfodydd, ysgrifennu polisïau a rhagor. Dylai ystyriaeth o'r Safonau ddyfod yn rhan o drefn ein gwaith bob dydd. Ein cyfrifoldeb ni ydyw bellach i gynnig gwasanaeth dwyieithog yn proactif mewn gwrthwyneb â'r gofyniad blaenorol fod aelodau o'r cyhoedd neu fyfyrwyr yn gofyn am wasanaeth Cymraeg neu ddwyieithog.

Os nad ydych wedi gwneud hynny eisoes, dechreuwch edrych ar y Safonau cyn gynted ag y gallwch ac ystyried sut y bydd y gofynion newydd yn effeithio ar eich tîm chi'n benodol. Mae'r Hysbysiad Cydymffurfio yn gosod allan yr holl Safonau y mae'n rhaid i Goleg Merthyr Tudful eu cyflawni.

GWEITHREDU: Ystyriwch y gweithredu bydd angen i chi fel tîm eu cyflawni i ddiwallu gofynion y safonau. (Mae rhestr ohonynt yn yr Hysbysiad Cydymffurfio).

GWEITHREDU: Mae'n bosibl y bydd goblygiadau cost ar eich tîm felly ystyriwch y rhain fel rhan o gynllunio eich cyllideb. Er enghraifft, cyfieithu ychwanegol neu gostau cyfieithu ar y pryd.

GWEITHREDU: Cynlluniwch ymlaen llaw a meddwl am 'ddwy iaith' o'r dechrau.



Y Coleg

Merthyr Tudful

The College

Merthyr Tydfil

Welsh Language Standards Managers/Team Leader Pack

Cyngor i Reolwyr / Arweinwyr Tîm

1) Sicrhewch fod gennych y gymysgedd gywir o sgiliau yn eich tîm

Er mwyn cyflenwi'r Safonau, mae angen i ni sicrhau fod y capasiti a'r gallu cywir o ran y Gymraeg gennym. Mewn rhai meysydd, mae'n bosibl na fydd hyn yn bosibl, fodd bynnag, dynodwch y sgiliau sydd mewn lle, y sgiliau sydd eu hangen, bylchau o ran cyflawni ac atebion am sut y gellir mynd i'r afael â hyn. Gall yr aelodau hyn o'r staff ateb ymholiad sydd angen ymatebiad Cymraeg oddi fewn i'ch isadran.

Os nad oes digon o gapasiti gennych yn y tîm i gyflenwi gwasanaeth dwyieithog llawn, soniwch am eich pryderon gyda Swyddog y Gymraeg/Safonau, Lynwen Harrington, a fydd yn hapus i roi arweiniad i chi.

2) Cefnogi eich Tîm

Mae'r Gymraeg yn sgil yn y gweithle, ac mae angen i siaradwyr Cymraeg deimlo eu bod yn ychwanegu gwerth at y tîm. Gall rhai fod yn bryderus y bydd gofyn iddynt gyfieithu unrhyw ddogfennau. Mae cyfieithu yn sgil arbenigol ac ni all pob siaradwr Cymraeg gyfieithu dogfennau hirfaith o'r Gymraeg i'r Saesneg neu o'r Saesneg i'r Gymraeg. Mae angen defnyddio cyfieithwyr allanol fel gweithdrefn cyfieithu. Anfonwch unrhyw gyfieithiadau i Swyddog y Gymraeg / Safonau, Lynwen Harrington.

Mae'n bwysig bob yn ymwybodol fod sgiliau'r Gymraeg yn amrywio'n sylweddol. Er enghraifft, gall rhai fod yn hyderus wrth sgwrsio yn Gymraeg, ond heb yr hyder i'w hysgrifennu'n ffurfiol.

Os oes gennych siaradwyr Cymraeg yn eich tîm a hoffai loywi eu sgiliau neu wneud peth hyfforddi ychwanegol, tafodwch a choladu rhestr o ofynion hyfforddi eich tîm mewn e-bost i Swyddog y Gymraeg /Safonau l.harrington@merthyr.ac.uk Mae gwersi Cymraeg am ddim i bob aelod o'r staff drwy ddarpariaeth Cymraeg i Oedolion Prifysgol De Cymru.

GWEITHREDU: Sicrhewch eich bod yn trafod unrhyw gyfrifoldebau ychwanegol gyda'ch tîm a sicrhau eu bod yn cael eu cydnabod.

GWEITHREDU: Ystyriwch uwch-sgilio eich staff yn lle prynu gwasanaethau allanol. Dynodwch ac e-bostiwch eich anghenion hyfforddi i Swyddog y Gymraeg / Safonau l.harrington@merthyr.ac.uk

GWEITHREDU: Trafodwch gyda'ch tîm sut y byddech yn delio gydag ymholiadau Cymraeg am gefnogaeth yn Gymraeg fel ateb galwad neu ymholiadau cyfieithu byr fel bod y tîm yn teimlo'n gyfforddus wrth ofyn am gymorth oddi wrth gydweithwyr sy'n siarad Cymraeg.



Y Coleg

Merthyr Tudful

The College

Merthyr Tydfil

Welsh Language Standards Managers/Team Leader Pack

3) Arwain drwy enghraifft

Atebwch y ffôn â chyfarchiad dwyieithog bob tro, sicrhewch fod eich negeseuon 'allan o'r swyddfa' neu neges ffôn yn ddwyieithog.

Nodwch: Mae hyfforddiant Cwrdd a Chyfarch ar gael i'r holl staff gan Swyddog y Gymraeg / Safonau, Lynwen Harrington. Ceir hefyd modiwl ar-lein 10 awr ar gael gyda sgiliau Cymraeg sylfaenol ac amrywiaeth o wybodaeth er enghraifft ateb y ffôn yn ddwyieithog.

4) Cyfieithydd Microsoft

Mae Microsoft Translator ar gael ar y rhan fwyaf o gyfrifiaduron sydd ag MS Office 2016. Er mwyn ei ddefnyddio cliciwch y tab 'Review' mewn rhaglenni Microsoft Office fel Word neu Outlook. Bydd hyn yn gadael i bobl **nad ydynt yn siarad Cymraeg** i gael syniad o ystyr unrhyw gyfathrebu a dderbyniwyd yn Gymraeg. Os ydych chi'n siaradwr Cymraeg, â sgiliau drafftio Cymraeg wedi eu datblygu'n dda, mae'r Cyfieithydd yn darparu amrywiaeth o ddefnyddiau posibl i weithio'n ddwyieithog.

5) Delio â diffyg cydymffurfio

Mae'r Safonau yn orfodol yn gyfreithiol a rhaid i'r **holl** staff ufuddhau iddynt. Mae cyfrifoldeb gan y Rheolwyr Llinell i sicrhau fod eu timau yn bodloni'r Safonau. Fel gyda phob gofyniad cyfreithiol, rydym yn disgwyl i reolwyr / arweinwyr tîm helpu staff i ddeall eu cyfrifoldebau ac ymddwyn yn unol â hynny. Bydd angen i unrhyw gwynion a dderbyniwn gael eu harchwilio oherwydd mae'n bosibl y byddant yn arwain at ddirwy a difrod difrifol o ran enw da'r Coleg.

Cyngor a Chefnogaeth

Cysylltwch â Swyddog y Gymraeg / Safonau i ddechrau o ran unrhyw ymholiadau a allai fod gennych l.harrington@merthyr.ac.uk



Y Coleg

Merthyr Tudful

The College

Merthyr Tydfil

Welsh Language Standards Managers/Team Leader Pack

ATODIAD A: TRAFODAETH MEWN CYFARFODYDD TÎM

Mae'n bosibl y bydd y canllaw canlynol yn ddefnyddiol i ysgogi trafodaeth o gwmpas newidiadau dydd i ddydd a fydd yn ofynnol oddi fewn i'ch tîm ac unrhyw bryderon a allai fod gan aelodau o'r tîm.

Mae'r Safonau'n orfodol yn ôl y gyfraith a rhaid i **bob** aelod o staff Prifysgol De Cymru ufuddhau iddynt.

1) Ateb y ffôn.

Yn ôl gofynion y Safonau rhaid i **bawb** ateb y ffôn â chyfarchiad dwyieithog bob amser e.e. 'Bore Da/ Good Morning', 'Prynhawn Da/ Good Afternoon', *enw'r adran yn ddwyieithog*. Atebwch bob galwad (yn fewnol ac yn allanol) â chyfarchiad dwyieithog i osgoi dryswch.

Caiff hyfforddiant ei ddarparu i staff am sut i ynganu. Siaradwch â'ch Rheolwr Llinell i ofyn am hyfforddiant.

Pan fyddwch yn ateb galwad yn Gymraeg, rhaid i chi:

- Ddelio â'r alwad yn Gymraeg os ydych yn gallu gwneud hynny eich hun
- Os nad ydych, esbonio nad ydych yn gallu siarad Cymraeg a chynnig trosglwyddo'r alwad i Siaradwr Cymraeg (gallwch ddweud hynny'n Saesneg)
- Os nad ydych yn gallu gwneud hyn, cymerwch neges (neu fe allai siaradwr Cymraeg wneud hynny ar eich rhan) a threfnu bod siaradwr Cymraeg yn ffonio yn ôl cyn gynted â phosibl.

Rhaid i alwadau ffôn gennych chi fod yn y Gymraeg pan fo'r Gymraeg fel iaith ddewisol wedi cael ei nodi ar gyfer y person ymlaen llaw.

Pwyntiau i'w trafod:

Oes siaradwyr Cymraeg gennych yn y tîm a allai gymryd galwadau os yw'n ofynnol?

Sur fyddwch chi'n sicrhau fod pawb yn y tîm yn ateb y ffôn â chyfarchiad dwyieithog?



Y Coleg

Merthyr Tudful

The College

Merthyr Tydfil

Trafodwch unrhyw bryderwr a llawng ar gyfer **Welsh Language Standards** ynghylch ateb y ffon â chyfarchiad dwyieithog. **Managers/Team Leader Pack**

Mae modiwl newydd ar-lein o'r enw "Work Welsh" <<https://learnwelsh.cymru/work-welsh/work-welsh-welcome/>> ar gael drwy wefan Canolfan Genedlaethol Dysgu Cymraeg a fydd yn helpu gydag ynganu. A oes modd gosod proses clir mewn lle i'r tîm fel bod staff yn gwybod yn union beth i'w wneud os yw'r galwr am barhau â'r alwad yn Gymraeg? A fyddai hynny'n lleddfu peth o'r pryderon hyn?

**Os ydych yn rheoli llinell gymorth, sicrhewch eich bod yn gyfarwydd â'r Safonau perthnasol yn yr Hysbysiad Cydymffurfio.*

2) Delio â Gohebiaeth

Mae gofynion y Safonau o ran gohebiaeth yn debyg iawn i'r rheini sy'n bodoli eisoes yn y Cynllun Iaith Gymraeg.

- Ar ôl derbyn gohebiaeth yn Gymraeg, rhaid ateb yn Gymraeg.
- Os nad ydych yn gwybod beth yw iaith ddewisol person rhaid i chi anfon fersiwn dwyieithog o'r ohebiaeth, ac ni ddylai'r fersiwn Gymraeg gael ei drin yn llai ffafriol; e.e. os yw fersiwn Saesneg o'r llythyr wedi ei arwyddo, rhaid arwyddo'r fersiwn Cymraeg hefyd.
- Pan fyddwch yn gohebu â rhywun am y tro cyntaf ar ôl i'r Safonau ddod i rym, rhaid i chi ofyn iddo/iddi a yw am ohebu â chi yn Gymraeg. Os ydyw, rhaid i chi gofnodi hynny a chyfathrebu â'r person yn Gymraeg o hynny ymlaen.
- Pan fyddwch yn gohebu â llawer o bobl, e.e. cylchlythyr, rhaid i chi anfon fersiwn dwyieithog o'r ohebiaeth.

Pwyntiau i'w trafod:

Ydych chi bob amser yn gofyn beth yw iaith ddewisol person wrth gyfathrebu ag ef/hi am y tro cyntaf? Os nad ydych, sut allwch chi fod yn siŵr fod hyn yn gynwysedig yn yr holl ohebiaeth yn y dyfodol? *

Sut ydych chi'n cofnodi iaith ddewisol person i sicrhau fod yr iaith gywir yn cael ei defnyddio wrth gysylltu â'r person yn y dyfodol?

** Os ydych yn anfon a derbyn ffurflenni'n rheolaidd, gwnewch eich hun yn gyfarwydd â'r Safonau perthnasol yn yr hysbysiad cydymffurfio.*

**Nodyn – Caiff iaith ddewisol myfyrwyr ei nodi yn ystod cofrestru.*

3) Trefnu Cyfarfodydd neu Ddigwyddiadau Allanol

Rhai i bob deunydd (hynny yw pob testun sy'n cael ei arddangos) mewn unrhyw gyfarfod neu ddigwyddiad allanol, yn cynnwys cyflwyniadau PowerPoint, agenda a phapurau cyfarfod, fod yn ddwyieithog.



Y Coleg

Merthyr Tudful

The College

Merthyr Tydfil

Ym mhob cyfarfod neu ddigwyddiad allanol, ble y caiff gwahoddiadau eu hanfon ymlaen llaw, rhaid i chi ddarganfod beth yw iaith ddewisol a rheini sy'n mynychu. Yn yr un modd, byddech chi'n gofyn am ofynion dietegol ac yn darparu deunyddiau allanol ar y gwahoddiad a hoffai unigolyn siarad yn Gymraeg yn ystod y digwyddiad / cyfarfod. Yn seiliedig ar iaith ddewisol y

Welsh Language Standards

Managers/Team Leader Pack

Pwyntiau i'w trafod:

- **Ydych chi'n darganfod beth yw iaith ddewisol y rheini sy'n mynychu eich cyfarfodydd neu ddigwyddiadau ar hyn o bryd?**
- **Os oes cyfarfodydd rheolaidd gennych, ydych chi'n cofnodi iaith ddewisol y cynrychiolwyr?**
- **Ydych chi bob amser yn darparu deunydd dwyieithog fel agenda, cyflwyniad PowerPoint? Os nad ydych chi, sut allwch chi sicrhau fod y rhain yn cael eu darparu yn y dyfodol?**

cynrychiolwyr, cynlluniwch iaith/ ieithoedd y cyfarfod yn unol â hynny. Os oes o leiaf 10% yn cadarnhau eu bod am ddefnyddio'r Gymraeg nid oes oblygiad arnoch i ddarparu cyfieithu ar y pryd ar destun y cyflwyniad. Rhowch wybod i bobl a wnaeth fynegi dymuniad i ddefnyddio'r Gymraeg cyn bod y cyfarfod neu ddigwyddiad yn dechrau os na fyddwch yn darparu cyfieithu ar y pryd.

Ar gyfer pob digwyddiad neu gyfarfod allanol ble mae presenoldeb yn agored/ ddim yn wybyddus o flaen llaw, rhaid i'r holl ddeunydd cyhoedduswydd i'r cyfarfod/digwyddiad fod yn glir y caiff y defnydd o'r Gymraeg ei groesawu a'i hwyluso.

Mae'r Safonau a restrir uchod yn flas o'r hyn sy'n ofynnol. Er enghraifft, os ydych chi'n gweithio mewn polisi neu gadw cofnodion, bydd angen i chi ddyfod yn gyfarwydd â Safonau Llundain Polisi a Chadw Cofnodion. Mae'r rhain yn gofyn eich bod yn ystyried yr effaith y gallai unrhyw bolisi, rhaglen, grant neu faes gwaith tebyg ei gael ar y Gymraeg. Mae Ffurflen Asesu Effaith Cydraddoldeb ar gael i'ch helpu chi i wneud hyn. Mae'r Safonau Gweithredu yn gymwys i staff mewnol. Sicrhewch eich bod chi hefyd yn darllen drwy'r Safonau a restrir yn yr Hysbysiad Cydymffurfio – gellir dod o hyd i hwn yn y cynllun gweithredu safonau a ddarparwyd gan Swyddog Safonau'r Gymraeg.